# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

### PENNOD 1

YSMYGU

*Gorfodi*

**27 Hysbysiadau cosb benodedig**

(1) Pan fo gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu bod person wedi cyflawni y naill neu'r llall o'r troseddau a ganlyn mewn mangre, man neu gerbyd y mae'r awdurdod gorfodi wedi ei awdurdodi i weithredu mewn perthynas â hi neu mewn perthynas ag ef—

(a) trosedd o dan adran 5(1);

(b) trosedd o dan adran 17(5),

caiff y swyddog roi i'r person hwnnw hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â'r drosedd.

(2) Pan fo gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 6(6) mewn perthynas â cherbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a grybwyllir yn is-adran (4), y mae'r awdurdod gorfodi wedi ei awdurdodi i weithredu mewn perthynas ag ef, caiff y swyddog roi i'r person hwnnw hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â'r drosedd.

(3) Mae hysbysiad cosb benodedig yn hysbysiad sy'n cynnig y cyfle i berson i gael ei ryddhau o fod yn agored i euogfarn am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi drwy dalu cosb benodedig.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 27 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Y dibenion yw dibenion cymdeithasol, domestig neu ddibenion preifat eraill y person y mae'r swyddog awdurdodedig yn credu ei fod wedi cyflawni'r drosedd.

(5) Yn achos trosedd y mae gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth, mae'r cyfeiriadau yn is-adrannau (1) a (2) at y person y caniateir rhoi hysbysiad cosb benodedig iddo i gael eu trin fel cyfeiriadau at y bartneriaeth.

(6) Yn achos trosedd y mae gan swyddog awdurdodedig reswm dros gredu ei bod wedi ei chyflawni gan gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth, mae'r cyfeiriadau yn is-adrannau (1) a (2) at y person y caniateir rhoi hysbysiad cosb benodedig iddo i gael eu trin fel cyfeiriadau at y gymdeithas.

(7) Yn yr adran hon, ystyr "partneriaeth" yw—

(a) partneriaeth o fewn Deddf Partneriaeth 1890 (p.39), neu

(b) partneriaeth gyfyngedig sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Partneriaethau Cyfyngedig 1907 (p.24).

(8) Am ddarpariaeth bellach ynghylch cosbau penodedig, gweler Atodlen 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 29.9.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1048, **ergl. 2(1)(f)**

**I3** A. 27 mewn grym ar 1.3.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 27 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2